01-06-07

Annwyl Mr Alun Thomas,

1. **A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i blant?**

Rwyf yn cytuno a barn S4C y bydd gwasanaeth i blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i blant. Tydi awr dros amser cinio ddim hanner digon i blant bach.

2. **A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch barn am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?**

Fy marn am yr oriau darlledu a gynigir a'r gynulleidfa sy'n cael ei thargedi yw bod 15 awr o 6am i 9pm yn angenrheidiol i blant 10-16 oed. Ond bod 6am i 7pm yn ddigon i blant 0-5 oed a 5-10 oed. Maent yn mynd yw gwely tua saith neu cyn saith. Ar ddyddiau ysgol gellir newid yr oriau i'r 10-16 oed fel y mae'r sianel CBBC yn ei wneud wrth roi rhaglenni ysgol yn y bore.

3. **Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i blant a ddarparir gan S4C?**

Yn fy marn i y nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i blant a ddarparir gan S4C yw, y dylid cael dwy sianel newydd fel pwynt 3.2.5 (tair cynulleidfa amrywiol). 0-5 oed a 5-10 oed ar un sianel a 10-16 oed ar sianel arall.

4. **A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?**

Fy newis i o paragraff 4, yw opsiwn 2. Rwyf yn credu mae hwn yw'r dewis gorau gan fod opsiwn 3 ddim yn bosib ar hyn o bryd.

5. **A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?**

Rwyf yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i blant yn debyg i S4C ar botwm coch.

6. **A allwch chi feddwl am ran-ddalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?**

Rwyf yn credu mai'r ran-ddalwyr allweddol gorau i Atodiad A yw plant. Mae barn plant yn bwysicach na dim, pan yn meddwl am sianel i blant.

7. **A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i blant?**

Unrhyw sylwadau eraill: rwyf yn gobeithio y bydd y sianel/sianeli Cymraeg i blant yn dechrau cael eu darlledu yn fuan. Edrychaf ymlaen at weld dyddiadau digwyddiadau cyhoeddus i drafod yr ymgynghoriad yn yr wasg leol.

Yn gywir,

Catrin Mererid Wyn Morgan